# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 18 Hydref 2021

## SL(6)062 – Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Diwygiodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf 1990") drwy gyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer adeiladau rhestredig yng Nghymru[1].

Mae cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn drefniant gwirfoddol ar gyfer rheoli un neu fwy o asedau hanesyddol dynodedig yn yr hirdymor. Mewn perthynas ag adeiladau rhestredig, gall cytundebau o'r fath fod rhwng perchennog adeilad rhestredig a naill ai'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru.

Er bod y fframwaith deddfwriaethol cychwynnol ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth wedi ei nodi yn Neddf 2016, roedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch cynnwys cytundebau o'r fath a'r gweithdrefnau ar gyfer cytuno arnynt a'u terfynu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth benodol ynghylch cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer adeiladau rhestredig yng Nghymru, gan ategu darpariaethau Deddf 1990.

Gosodwyd fersiwn flaenorol o'r Rheoliadau hyn ar 28 Medi 2021 a chawsant eu trafod gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 11 Hydref 2021. Tynnwyd y fersiwn flaenorol yn ôl wedi hynny gan Lywodraeth Cymru.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:** 01 Ionawr 2022

[1] Cyflwynodd Deddf 2016 hefyd gytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer henebion cofrestredig. Ymdrinnir â'r rhain yn Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.